

# Bwyd, Coedwigoedd ac Anghyfiawnder:

## Y Cyswllt Cudd Rhwng Cymru a Brasil

# Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol 3

2. Cyflwyniad 5

3. Olrhain Ôl troed Coedwigoedd Byd-eang Cymru ym Mrasil 8

4. Hanes Soia 9

5. Cost Gwirioneddol Cig Eidion 18

6. Ysgogi Newid: Gweithredu Dim Datgoedwigo yng Nghymru 20

7. Argymhellion 24

8. Astudiaethau Achos 27


### Awduron


Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ysgrifennu gan Maint Cymru a WWF Cymru a'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree. Nid ydy'r barnau a fynegir o reidrwydd yn rai'r Ymddiriedolaeth.


### Awduron yn ôl trefn yr wyddor:


**Angie Kirby** *Maint Cymru*

**Barbara Davies-Quy** *Maint Cymru*

**Cath Lehane** *WWF Cymru*

**Rhian Brewster** *WWF Cymru*

**Shea Buckland-Jones** *WWF Cymru*


THE JOSEPH ROWNTREE CHARITABLE TRUST



# 1. Crynodeb Gweithredol

**Mae coedwigoedd trofannol yn hanfodol i sefydlogi'r hinsawdd, bioamrywiaeth, a llesiant dynol ar draws y byd. Maen nhw'n storio hanner carbon coedwigoedd y byd, yn rheoleiddio glawiad, ac yn cefnogi miliynau o bobl. Er hynny, er gwaethaf ymrwymiad COP26 i roi terfyn ar ddatgoedwigo a'i wrthdroi erbyn 2030, mae coedwigoedd yn cael eu colli ar draws y byd ar gyflymder pryderus. Yn 2024, cafodd 6.7 miliwn hectar o goedwig drofannol ei ddinistrio. Mae'r canlyniadau'n amlwg: sychder mwyfwy difrifol, bioamrywiaeth yn chwalu, dadleoli Pobl Frodorol, ac effeithiau'r hinsawdd yn cynyddu ar draws y byd.**

Wrth i'r byd baratoi ar gyfer COP30 yn Belém, Brasil, sydd yn cael ei alw'n "Forest COP", mae datgoedwigo wedi dod i'r amlwg fel prawf diffiniol ar gyfer gweithredu rhyngwladol ar yr hinsawdd. Mae un rhan o dair o goedwigoedd trofannol y blaned ym Mrasil, ac mae ei arweinyddiaeth ar roi terfyn ar ddatgoedwigo yn hanfodol i gyflawni targed Cytundeb Paris o 1.5°C. Eto, mae ransio gwartheg, ehangu soia, a llywodraethu tir gwan yn parhau i fod yn brif yrwyr datgoedwigo. Mae'r cadwyni nwyddau byd-eang hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â phatrymau ymddygiad yng Nghymru.

## Mae Cymru'n mewnforio tua 190,000 tunnell o soia a 12,000 tunnell o gig eidion y flwyddyn.

Mae bron i dri chwarter o'r olion troed tir o ran mewnforio soia yn digwydd mewn gwledydd sydd mewn perygl uchel neu risg uchel iawn o ddioddef datgoedwigo ac/neu o wynebu problemau cymdeithasol, fel cam-drin hawliau Pobl Frodorol, gan gynnwys Paraguay, Brasil, a'r Ariannin. I ateb galw Cymru am gig eidion, mae angen arwyneb tir sy'n cyfateb i faint Bannau Brycheiniog bob blwyddyn, gyda 26 y cant yn dod o wledydd sydd mewn perygl uchel o ddioddef datgoedwigo a phroblemau cymdeithasol, yn enwedig Brasil.[1]

Mae'r cadwyni cyflenwi hyn yn cysylltu defnydd yng Nghymru â datgoedwigo, cam-drin hawliau dynol, a dinistrio cynefinoedd dramor. Mae tua 80 y cant o'r soia sydd yn cael ei fewnforio i Gymru yn cael ei ddefnyddio fel porthiant anifeiliaid ar gyfer y sectorau dofednod a llaeth, ac yn cynhyrchu mwy nag 1.1 miliwn tunnell o allyriadau o $CO_2e$ bob blwyddyn. Gartref, mae'r system hon yn cyfrannu at lygredd ffosfforws yn afonydd Cymru, ac yn tynnu sylw at gostau amgylcheddol ffermio da byw dwys, a'r gyd-ddibyniaeth rhwng ecosystemau lleol ac ecosystemau ar draws y byd.

Serch hynny, mae angen gweithredu ymhellach i gysoni polisïau cenedlaethol gyda rhwymedigaethau cyfrifoldeb byd-eang Cymru, a nodau llesiant ehangach, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Er enghraifft, mae bylchau allweddol o hyd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn enwedig wrth fynd i'r afael â soia wedi'i fewnforio sy'n risg i ddatgoedwigo mewn porthiant anifeiliaid, ac mewn caffael cyhoeddus a buddsoddiadau pensiwn sector cyhoeddus sy'n dal i fod yn agored i ddiwydiannau cysylltiedig â datgoedwigo.

1 https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/wwf_risky_b_wales.pdf

## Mae'r adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru ac ar Sector Cyhoeddus Cymru i gyflawni'r canlynol:

Sicrhau bod y **sector cyhoeddus yn dod yn sector dim datgoedwigo** erbyn 2028, a sicrhau nad yw cadwyni cyflenwi yn cyfrannu at ddatgoedwigo byd-eang, colli cynefin neu at dorri hawliau dynol.

---

Cysoni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy â systemau bwyd dim datgoedwigo ac ailwladychol, a **lleihau'r ddibyniaeth ar soia wedi'i fewnforio.**

---

Galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno systemau diwydrwydd dyladwy sydd eu hangen ar frys, **a chael gwared â datgoedwigo o gadwyni cyflenwi'r DU,** ac adeiladu ar bwerau o dan Ddeddf yr Amgylchedd y DU.

---

**Hyrwyddo deietau cynaliadwy trwy gaffael cyhoeddus** – a blaenoriaethu llai o gig a chynnyrch llaeth, ond o ansawdd gwell, cynnyrch Cymreig, ac opsiynau planhigion amrywiol.

---

**Cryfhau cydweithredu rhyngwladol,** a chefnogi Pobl Frodorol a chymunedau coedwigoedd gyda chyllid hirdymor, uniongyrchol fel partneriaid allweddol mewn gweithredu byd-eang ar newid hinsawdd

**Drwy wreiddio'r mesurau hyn ar draws llywodraeth, caffael, ac amaethyddiaeth, gall Cymru ddangos arweinyddiaeth fyd-eang yn COP30, a dangos y gall cenedl fechan wneud cyfraniad mawr at roi terfyn ar ddatgoedwigo, diogelu bioamrywiaeth, a sicrhau dyfodol teg a chynaliadwy i bawb.**





# 2. Cyflwyniad

**Mae coedwigoedd trofannol yn hanfodol i fywyd ar y Ddaear. Maen nhw'n gorchuddio tua chwech y cant o arwyneb tir y Ddaear, ac yn cynnwys hanner yr holl garbon sydd wedi'i storio yn y coedwigoedd ar y Ddaear[2] ac 80 y cant o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid y byd.[3] Maen nhw'n gartref i filiynau o bobl, ac yn darparu'r amgylchiadau i fywyd ffynnu ar ein planed.**

Mae'r 'gwasanaethau ecosystem' hyn wedi cael eu creu gan fiomau coedwig gweithredol, iach ac maen nhw'n helpu i reoleiddio ein hinsawdd, atal sychder, llifogydd a llithriadau tir, rhwystro clefydau rhag lledaenu, yn glanhau dŵr yfed, yn darparu cysgod, bwyd a meddyginiaeth, ac yn cyfoethogi ein bywydau gyda chysylltiad ysbrydol, parch ac ysbrydoliaeth.

**Er ei fod yn gorchuddio dim ond tuag 1 y cant o dir y blaned, mae'r Amazon yn gartref i tua 10 y cant o'r holl rywogaethau gwyllt y gwyddom amdanynt, a llawer mwy sydd eto i'w darganfod.**

Mae'n parhau i fod yn un o'r llochesi olaf ar y Ddaear ar gyfer jagwariaid, eryrod cribog, a dolffinau afon pinc, ac yn darparu cynefin i filoedd o adar, pili-pala, a mamaliaid unigryw fel y diogynnod deufys deheuol yn Ne America, marmosetiaid pigmi, tamariniaid cyfrwyog ac ymerodrol, a mwncïod Goeldi. Mae iechyd a llesiant coedwigoedd trofannol yn gynhenid gysylltiedig â'n hiechyd ni ein hunain; mae eu goroesiad nhw yn hanfodol i'n goroesiad ni.

Fodd bynnag, er bod dros 140 o wledydd wedi ymrwymo i roi terfyn ar ddatgoedwigo a diraddio tir, a'u gwrthdroi erbyn 2030 yn COP26 yn Glasgow, mae'r byd yn dal i fod yn bell o'r llwybr dim datgoedwigo hwn. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi digwydd, mae colli coedwigoedd yn parhau i fod yn uchel iawn. Yn 2024 yn unig, fe wnaethon ni golli 6.7 miliwn hectar o goedwig frodorol gynradd, yn bennaf oherwydd tân a datgoedwigo.[4] Roedd



tanau coedwig a achoswyd gan dymheredd cynyddol yn gyfrifol am 50 y cant o'r holl goedwigoedd trofannol cynradd a gollwyd yn 2024, gan ryddhau mwy na phedair gwaith yr allyriadau o bob taith mewn awyren yn 2023.[5] Mae rhyddhau'r $CO_2$ hwn yn cyfrannu at effeithiau hinsoddol trychinebus, fel sychderau digynsail yn yr Amazon[6], gan ynysu cymunedau a lladd niferoedd dirifedi o anifeiliaid, tra hefyd, yn dadleoli Pobl Frodorol o'u tiroedd.[7] Mae'r Amazon mewn perygl o gyrraedd pwynt tyngedfennol diwrthdro.[8] Mae rhyw 17 y cant o goetir yr Amazon wedi cael ei droi i ddefnyddiau eraill ac mae 17 y cant yn ychwanegol wedi dirywio[9]. Mae'r pwysau ar yr Amazon yn cynyddu. Rhaid i ni weithredu nawr. Heb yr Amazon, byddwn yn colli'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Tra yng Nghymru, rydym wedi profi nifer o donnau gwres a lleihad mewn glawiad, gan gynyddu'r risg o lifogydd sydyn, prinder dŵr a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres.[10,11]


2 https://gfr.wri.org/biodiversity-ecological-services-indicators/forest-carbon-stocks
3 https://wwf.panda.org/discover/our_focus/forests_practice/importance_forests/tropical_rainforest/
4 https://www.google.com/url?q=https://www.wri.org/news/release-global-forest-loss-shatters-records-2024-fueled-massive-fires&sa=D&source=docs&ust=1758192143023156&usg=AOvVaw2F542icnbcQ7XQPjat4du3
5 https://www.wri.org/news/release-global-forest-loss-shatters-records-2024-fueled-massive-fires
6 https://www.imperial.ac.uk/news/251057/climate-change-made-unprecedented-amazon-rainforest
7 https://news.mongabay.com/2023/11/deforestation-in-the-brazilian-amazon-falls-22-in-2023/
8 www.wwf.org.uk/sites/default/files/2022-11/RISKING%20THE%20AMAZON_final.pdf
9 https://www.wwf.org.uk/where-we-work/amazon
10 https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2025/uk-on-track-for-one-of-its-warmest-summers-on-record
11 https://www.lshtm.ac.uk/newsevents/news/2025/nearly-600-heat-related-deaths-expected-uk-heatwave-researchers-estimate

Mae dros 273,000 o gartrefi mewn perygl o lifogydd, tra bod tywydd eithafol yn bygwth ein gallu i dyfu bwyd a chael mynediad iddo, gyda digwyddiadau fel sychder a llifogydd yn costio miliynau o bunnoedd i ffermwyr Cymru bob blwyddyn.[12] Mewn astudiaeth ddiweddar, roedd 55 y cant o ffermwyr yn credu mai mynd i'r afael â thywydd eithafol sydd ynghlwm â newid hinsawdd yw'r flaenoriaeth ar gyfer diogelwch bwyd y DU.[13] Yn ogystal ag effeithio'n uniongyrchol ar ffermwyr, yn 2022-23, cynyddodd effaith newid hinsawdd fil bwyd cyfartalog cartref yn y DU £361.[14]

**Os ydym o ddifrif am gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C – y terfyn a gytunwyd yng Nghytundeb Hinsawdd Paris – rhaid i ni roi terfyn ar ddatgoedwigo trofannol a throsi cynefinoedd, a'u gwrthdroi.**

Os nad ydym yn gwneud hyn, rydym ar y trywydd at gynhesu byd-eang trychinebus, a fydd yn effeithio ar bob math o fywyd fel y'i hadwaenwn. 2024 oedd y flwyddyn gyntaf ar gofnod lle'r oedd y tymheredd byd-eang cyfartalog wedi mynd dros 1.5°C yn uwch na lefelau cyn-ddiwydiannol[17]. Ni allwn ganiatáu i hyn ddod y norm. Rhaid i ni weithredu, gyda'n gilydd, i atal rhagor o ddatgoedwigo, cynhesu byd-eang ac effeithiau hinsawdd anataliadwy. Rhaid i ni arafu ein defnydd o'r blaned.

Mewn blwyddyn pan mae'r byd yn profi mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol o ganlyniad i gynhesu byd-eang a achosir gan bobl,[18,19] bydd arweinwyr gwleidyddol, gwyddonwyr, buddsoddwyr, cynrychiolwyr o'r wladwriaeth, y gymdeithas sifil a busnesau o bob rhan o'r byd yn dod at ei gilydd yn COP30 yn Belém ym mis Tachwedd 2025, wrth aber afon yr Amazon ym Mrasil. Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei alw'n 'Forest COP', a bydd blaenoriaethau'n cynnwys bioamrywiaeth a diogelu coedwigoedd – fel asesu ble rydym ni ar ein llwybr dim datgoedwigo erbyn 2030.[20]




*Ffig. 1. Ton wres, Cymru, Gorffennaf 2025 (Ffynhonnell: Met Office)[15]*



*Ffig. 2. Sychder yr Amazon, Brazil, Medi 2024[16]*

12 https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2024-03/5126%20-%20FARMING%20IN%20WALES_REPORT_v3.pdf
13 https://eciu.net/media/press-releases/2025/majority-of-farmers-report-feelings-of-anxiety-and-depression-in-face-of-drought-and-flooding
14 https://eciu.net/analysis/reports/2023/climate-fossil-fuels-and-uk-food-prices-2023
15 Llun gan: Met Office. Adalwyd o: https://futuregenerations.wales/news/name-heatwaves-like-storms-says-future-generations-commissioner-for-wales-derek-walker-as-met-office-forecasts-soaring-temperatures-again/ [online resource]
16 Llun gan: Observatório do Clima. Adalwyd o: https://www.brasildefato.com.br/2024/09/09/from-the-amazon-to-southern-brazil-find-out-about-the-climate-crisis-hitting-the-country/ [online resource]
17 https://climate.copernicus.eu/copernicus-2024-first-year-exceed-15degc-above-pre-industrial-level
18 https://www.worldweatherattribution.org/2025/
19 https://essd.copernicus.org/articles/17/2641/2025/
20 https://forestsnews.cifor.org/93254/brazil-cop30-agenda-key-themes?fnl=en




Mae Mutirão yn dod o'r gair Tupi-Guarani brodorol "motirõ" sy'n cyfeirio at gymuned yn dod at ei gilydd i weithio ar yr un dasg. Drwy rannu'r doethineb hynafol hwn sydd mor werthfawr, mae llywyddiaeth COP30 yn gwahodd y gymuned ryngwladol i ymuno â Brasil mewn "Mutirão" byd-eang yn erbyn newid hinsawdd, gan ddod â llywodraethau, cymdeithas sifil a'r sector preifat at ei gilydd i greu atebion ar yr hinsawdd gyda'i gilydd.

*Ffig. 3. Mae Llywyddiaeth Brasil COP30 yn gwahodd y byd i ddod at ei gilydd mewn ymdrech byd-eang mawr dros weithredu ar yr hinsawdd / Llun: Clyweledol COP30/Secom*

Mae Brasil yn cynnwys tua thraean o goedwigoedd trofannol y byd[21], sy'n ei wneud y gyfran fwyaf a ddelir gan unrhyw wlad. Mae hyn yn gwneud Brasil yn bwysig dros ben: ni all ymdrechion byd-eang i leihau datgoedwigo a chadw o fewn targedau hinsawdd lwyddo heb ostyngiadau sylweddol a pharhaol mewn colli coedwigoedd yno.

Hyd yn oed gyda gostyngiad diweddar yn y cyfraddau datgoedwigo oherwydd gorfodi a pholisïau mwy cadarn, mae Brasil yn parhau i fod yn gyfrannwr mwyaf y byd mewn perthynas â cholli coedwigoedd trofannol, ac yn trechu gwledydd fel Indonesia a Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo.

**Prif ysgogwyr datgoedwigo ym Mrasil yw ransio gwartheg a thyfu soia, tanau, a system wan o lywodraethu tir.**

Mae cynnal COP30 yn Belém yn cynnig cyfle hanesyddol i osod coedwigoedd trofannol wrth galon trafodaethau hinsawdd byd-eang, i sicrhau cyllid a gwarchodaethau cryfach, ac i ddangos bod rhoi terfyn ar ddatgoedwigo yn hanfodol i gadw'r nod o gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C o fewn cyrraedd.

Mae Cymru, fel llawer o wledydd, yn cyfrannu at ddatgoedwigo trofannol trwy ei harferion bwyta a'i chadwyni cyflenwi byd-eang. Mae cig eidion Brasil, gan gynnwys cynnyrch wedi'u prosesu fel corn-bîff, yn cael ei allforio i Gymru, tra bod soia a dyfir ym Mrasil – gyda llawer ohoni'n gysylltiedig â throsi tir – yn cael ei ddefnyddio fel porthiant da byw ar ffermydd yng Nghymru. Mae'r cadwyni cyflenwi hyn yn cysylltu dewisiadau bob dydd yng Nghymru â cholli coedwigoedd a natur miloedd o filltiroedd i ffwrdd, ac yn tynnu sylw at natur fyd-eang yr argyfwng datgoedwigo.

O ystyried y cysylltiad clir a dinistriol hwn rhwng defnydd Cymru a choedwigoedd trofannol, mae angen gweithredu ar frys i sicrhau bod Cymru'n ymateb yn effeithiol i'r argyfwng hinsawdd a natur. Drwy fynd i'r afael ag arferion ymddygiadol, gwella'r gallu i olrhain, a mabwysiadu arferion dim datgoedwigo a throsi, mae gan Gymru'r cyfle i gyfrannu'n ystyrlon at ddiogelu'r Amazon, a choedwigoedd trofannol eraill fel coedwig yr Iwerydd, gan chwarae ei rhan dros sefydlogrwydd hinsawdd byd-eang, pobl a natur.




*© Araquém Alcântara / WWF-Brazil*

21 Mae adroddiad State of the World's Forests 2024 (SOFO 2024) The Food and Agriculture Organization's (FAO) yn datgan bod tua 420 miliwn hectar o goedwigoedd trofannol ym Mrasil. O ystyried yr amcangyfrifir bod cyfanswm ardal coedwigoedd trofannol y byd yn 1.8 biliwn hectar, mae cyfran Brasil tua 23.3% o goedwigoedd trofannol y byd. https://www.donorplatform.org/wp-content/uploads/2024/11/SOFO-2024.pdf



# 3. Olrhain Ôl Troed Coedwigoedd Byd-eang Cymru ym Mrasil

Yn yr adrannau sy'n dilyn, rydym yn datgelu effeithiau dinistriol cynhyrchu soia a chig eidion, sy'n gyfrifol am ganran fawr o'r datgoedwigo yn yr Amazon ym Mrasil, ac yn datgelu sut mae'r defnydd o'r nwyddau hyn yng Nghymru yn eu megino'n uniongyrchol.



**Mae'r ddau nwydd allweddol hyn sy'n risg i goedwigoedd yn ysgogi datgoedwigo dramor ac yn dadleoli Pobl Frodorol a chymunedau lleol, tra gartref yng Nghymru, maen nhw'n llygru afonydd, yn niweidio bywyd gwyllt, ac yn bygwth iechyd y cyhoedd. Mae'r adroddiad hwn yn dangos nid yn unig beth mae Cymru'n ei wneud i leihau ei olion troed coedwigoedd trofannol, ond pam bod angen gweithredu'n bendant, ac ar frys, i dorri'r cyswllt rhwng ein system fwyd a dinistrio coedwigoedd a chynefinoedd ar draws y byd.**



# 4. Hanes Soia

**Yn draddodiadol, roedd anifeiliaid fferm yng Nghymru yn cael eu bwydo gyda beth bynnag oedd ar gael am ddim ac yn lleol ar y tir – porfa, ond hefyd gwair, gwastraff bwyd a grawn, fel sgil-gynhyrchion o'r melinau i'w bwyta gan bobl.[22] Fodd bynnag, gyda dyfodiad ffermio diwydiannol, symudodd y bwydo o ddeietau seiliedig ar borfwyd i ddwysfwydydd a fwriadwyd i fwyhau twf ac effeithlonrwydd. Ar ôl argyfwng BSE 1996[23] a gwahardd blawd cig ac esgyrn (MBM) mamaliaid mewn porthiant anifeiliaid, symudodd y sylw at fewnforio ffa soia llawn protein i lenwi'r bwlch.**

Dros y 50 mlynedd diwethaf, mae cynhyrchiant cig ar draws y byd wedi mwy na threblu, ar y cyd â chynnydd sydyn mewn tyfu soia ar gyfer porthiant anifeiliaid [24]. Mae cyw iâr yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o hyn yn y DU: y nhw ydy'r anifeiliaid sydd yn cael eu lladd fwyaf am gig, a phrif fwytawyr soia.

Mae Cymru'n mewnforio 190,000 tunnell o soia y flwyddyn.[25]

**Mae tua 80 y cant o fewnforion soia Cymru yn cael eu bwydo i dda byw.**



Mae bron i 50 y cant o'r soia a fewnforir ar gyfer porthiant yng Nghymru yn cael ei fwyta gan ddofednod, o'i gymharu â 20 y cant gan wartheg godro a 19 y cant gan ddefaid.[26] Yn gyffredinol, mae cyw iâr yn cyfrifo am fwy na thraen o'r defnydd o soia ar draws y byd, tra bod pobl yn bwyta tua phumed yn uniongyrchol (h.y., nid drwy gynhyrchion anifeiliaid).[27] Mae'r ddibyniaeth hon yn adlewyrchu'r galw cynyddol am gig cyw iâr – cafodd dros 76 biliwn o gywion ieir eu lladd yn 2023 (gweler ffig.6), a goruchafiaeth bridiau sy'n tyfu'n gyflym sydd angen deietau llawn protein. Mae cynhyrchiant dofednod dwys yn dibynnu'n fawr ar soia i ateb yr anghenion maethol hyn, ac ni fyddai'n ddichonol hebddo.[28]

22 https://www.cambridge.org/core/journals/journal-of-applied-animal-nutrition/article/review-of-the-feed-industry-from-a-historical-perspective-and-implications-for-its-future/A655939BDBB386140F15ECB577F5711C

23 Roedd argyfwng BSE 1996 yn argyfwng iechyd cyhoeddus a gafodd ei sbarduno trwy gydnabod bod cysylltiad rhwng BSE ("clefyd y gwartheg gwallgof") ac amrywiolyn newydd o glefyd Creutzfeldt-Jakob (vCJD) mewn pobl. Arweiniodd hyn at yr Uned Ewropeaidd yn gwahardd allforion cig eidion Prydain, lladd swm enfawr o anifeiliaid, a gwahardd blawd cig ac esgyrn mamaliaid (MBM) mewn porthiant anifeiliaid.


24 Hannah Ritchie, (2021), Drivers of Deforestation. Ar gael yn: https://ourworldindata.org/drivers-of-deforestation#is-our-appetite-for-soy-driving-deforestation-in-the-amazon

25 www.wwf.org.uk/sites/default/files/2021-11/wwf_risky_b_wales.pdf


26 www.wwf.org.uk/sites/default/files/2021-11/wwf_risky_b_wales.pdf

27 https://ourworldindata.org/drivers-of-deforestation


28 https://www.soilassociation.org/causes-campaigns/stop-poison-poultry/





*Ffig. 4. Cynhyrchiant ffa soia, ffynhonnell: Our World in Data*[29]




*Ffig. 5. Cynhyrchiant cig ar draws y byd 1961 tan 2023, ffynhonnell: Our World in Data*[30]




*Ffig. 6. Nifer yr anifeiliaid sydd yn cael eu lladd bob blwyddyn am eu cig, World, 1961 tan 2023. Ffynhonnell: Our World in Data*[31]




*Ffig. 7. The World's Soy: is it used for Food, Fuel, or Animal Feed? Ffynhonnell: Our World in Data*[32]

Yn ystod pum mis cyntaf 2025, daeth Brasil y prif allforiwr soia, gyda 51.53 miliwn tunnell, cynnydd o 5 y cant o'r un cyfnod yn 2024.[33] Mae'r cynhyrchiant dwys hwn, ynghyd â throsi tir coediog yn borfa ar gyfer gwartheg cig eidion, yn ysgogi datgoedwigo, trosi a cholli natur, yn enwedig yn yr Amazon, Coedwig yr Iwerydd a'r Cerrado – y safana mwyaf, a mwyaf bioamrywiol yn y byd.

Mae Pobl Frodorol a chymunedau traddodiadol eraill wedi cael eu heffeithio'n fawr gan gynhyrchu soia. Yng Ngorllewin Paraná, mae dros 60 y cant o Dir Brodorol Avá-Guarani yn cael ei oruchafu gan amaeth-fusnes, sy'n gadael dim ond un y cant ar gyfer ffermio traddodiadol. Mae llawer o'u tiroedd hynafol yn croesi gyda Choedwig yr Iwerydd, un o'r biomau mwyaf peryglus yn y byd – sydd bellach wedi ei leihau i ddim ond 12 y cant o'i faint gwreiddiol.

29 "Data Page: Soybean production", part of the following publication: Hannah Ritchie, Pablo Rosado, and Max Roser (2023) – "Agricultural Production". Data adapted from Food and Agriculture Organization of the United Nations. Retrieved from https://archive.ourworldindata.org/20250909-093708/grapher/soybean-production.html [online resource] (archived on September 9, 2025).

30 "Data Page: Total meat production", part of the following publication: Hannah Ritchie, Pablo Rosado, and Max Roser (2023) – "Agricultural Production". Data adapted from Food and Agriculture Organization of the United Nations. Retrieved from https://archive.ourworldindata.org/20250909-093708/grapher/global-meat-production.html [online resource] (archived on September 9, 2025).

31 Food and Agriculture Organization of the United Nations (2025) – with major processing by Our World in Data. "Number of cattle slaughtered for meat – UN FAO" [dataset]. Food and Agriculture Organization of the United Nations, "Production: Crops and livestock products" [original data]. Retrieved from: https://ourworldindata.org/grapher/animals-slaughtered-for-meat

32 Hannah Ritchie (2021) – "Drivers of Deforestation" Published online at OurWorldinData.org. Retrieved from: 'https://ourworldindata.org/drivers-of-deforestation' [Online Resource]. Source: Food Climate Resource Network (FCRN), University of Oxford; and USDA PSD Database [original data].

33 https://www.theguardian.com/global-development/2025/sep/29/agriculture-deforestation-farming-soya-cultivation-eating-brazil-amazon

***"Daeth amaeth-fusnes a rhedeg dros bopeth, gan ddinistrio popeth. Heddiw, ystyrir amaeth-fusnes fel "agropop," ond mewn gwirionedd, mae wedi lladd natur gyfan. Heddiw, maen nhw angen ehangu, maen nhw angen mwy, oherwydd mae amaeth-fusnes yn marw os na fydd yn ehangu. Dyna pam maen nhw eisiau ehangu mewn unrhyw ffordd y gallant. I wneud hynny, rhaid iddyn nhw fynd dros diroedd Brodorol, gymaint fel eu bod yn ymladd amdano. Dyna pam mae tir Avá Guarani wedi'i leihau'n fawr ac wedi dod yn y tir rydym yn ei weld, gyda dim ond coedwig fechan. Diflannodd y ffynhonnau oherwydd bod amaeth-fusnes wedi rhedeg drostynt. Dydy llawer o ardaloedd coedwig a oedd yno yn y gorffennol ddim yno bellach oherwydd eu bod nhw wedi eu dinistrio'n raddol, nes iddyn nhw dynnu popeth i fyny. Yna, mae gormod o wres yn dod, oherwydd dydy'r goeden honno ddim yno rhagor i ddiogelu'r tir. Yr un peth â phobl: os nad ydy pobl yn gwisgo dillad heddiw, mae'r croen yn dechrau pilio, mae'r croen yn dechrau pilio i ffwrdd, ac yn dechrau sychu. Ac mae'r tir fel hyn hefyd – mae'r tir heddiw wedi dadhydradu. Mae wedi cyrraedd ei derfyn. Nid oes ganddo unrhyw gysgod, nid oes ganddo'r coed hynny a oedd yn gwneud i'r tir anadlu. Oherwydd mae angen i'r tir anadlu hefyd a heddiw, nid yw'n anadlu; mae angen dŵr arno, mae angen cysgod arno, a does dim cysgod mwyach"***

**Karai Okaju, sydd yn byw yn Tekoha Y'Hovy ar hyn o bryd yn Guaíra, yn adrodd ar chwalu'r diriogaeth hon gan amaeth-fusnes.**

Mae Moratoriwm Soia'r Amazon, a sefydlwyd yn 2006, wedi bod yn allweddol mewn lleihau datgoedwigo sydd yn cael ei achosi gan dyfu ffa soia ym Mrasil. Drwy addo peidio â phrynu ffa soia sydd wedi cael eu tyfu ar dir a gafodd ei ddatgoedwigo ar ôl 2008, mae prynwyr mawr wedi cyfyngu'n sylweddol ar ddatgoedwigo'n uniongyrchol ar gyfer soia. Fodd bynnag, mae heriau cyfreithiol diweddar sy'n ceisio atal y moratoriwm yn rhoi ei ddyfodol mewn perygl, yn union cyn COP30.

Yn aml, mae amaeth-fusnes Brasil yn cael ei glodfori fel "basged fara'r byd," gan allforio soia, cig eidion, a gwenith i farchnadoedd byd-eang dan y faner bwydo dynoliaeth. Fodd bynnag, mae'r naratif hwn yn cuddio anghydraddoldebau dwfn a dinistr amgylcheddol. Mae llawer o'r "cynhyrchiant" hwn yn deillio o dir sydd wedi cael ei gymryd yn dreisgar oddi wrth



*Corn Guarani sy'n golygu goroesiad diwylliannol a gwydnwch ar gyfer y Pobl Guarani.*

bobl Frodorol fel yr Avá Guarani, y mae eu tiroedd hynafiaid wedi cael eu clirio ar gyfer ungnydau soia, ransio gwartheg, a phlanhigfeydd ewcalyptws. Wrth i'w coedwigoedd a'u gerddi gael eu dinistrio, ac wrth i fynediad at dir hela a physgota traddodiadol gael ei golli, mae llawer o gymunedau Avá Guarani yn wynebu ansicrwydd bwyd difrifol, ac yn dibynnu ar roddion bwyd y Llywodraeth Ffederal i oroesi.

Mae'r sefyllfa hon yn datgelu paradocs amaethyddiaeth ddiwydiannol: mae'n cynhyrchu symiau enfawr o nwyddau i'w hallforio, yn bennaf i fwydo anifeiliaid neu gynhyrchu bionwyddau, tra bod cymunedau lleol yn mynd heb fwyd ar eu tiroedd eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r Guarani yn ddioddefwyr goddefol. Maen nhw'n trefnu i amddiffyn eu hawliau tir ar draws Brasil trwy weithredoedd cyfreithiol, meddiannu tiroedd a chynghreiriau gyda sefydliadau amgylcheddol a hawliau dynol. Ar yr un pryd, maen nhw'n gweithio i adfer arferion agroecolegol Brodorol, adfywio amrywiaethau hadau traddodiadol, ac ailadeiladu systemau bwyd amrywiol a chynaliadwy wedi'u gwreiddio mewn cosmoleg Guarani a chytbwysedd â'r tir. Mae'r gweithredoedd hyn yn cynrychioli dewis ecolegol amgen i amaeth-fusnes echdynnol a gweithred wleidyddol o wrthwynebiad, gan adennill sofraniaeth dros fwyd, tiriogaeth, a gwybodaeth.

***"Yn yr hen ddyddiau, roedd fy nheulu yn bwyta bwyd o'u cnydau. Roeddent yn plannu casafa, corn, ffa, a hyd yn oed reis. Nawr, des dim llawer o ddim byd, a dydy rhai teuluoedd ddim yn gallu plannu oherwydd nad oes ganddynt hyd yn oed le i fyw ynddo".*** – Tupã Karai

Mae tyfu soia ar raddfa ddiwydiannol yn cael gwared â chynefinoedd naturiol ar gyfer anifeiliaid gwyllt sy'n rheoli plâu, gan orfodi defnydd trwm o blaladdwyr cemegol. Mae'r gymuned Avá Guarani yn dweud bod pentrefi ger planhigfeydd soia yn cael eu chwistrellu'n rheolaidd, weithiau'n fwriadol, gyda phlaladdwyr yn cyrraedd eu cartrefi, caeau, a'u cymunedau. Ac eithrio tri phentref yn yr ardal ddinesig, mae pob Tekoha (pentref) yn Guasu Guavirá yn ffinio â ffermydd soia, weithiau gyda llai na dau fetr rhwng y planhigfeydd a'u cartrefi. O ganlyniad, mae cysylltiad parhaus â lluwchio plaladdwyr, sy'n achosi problemau iechyd fel poenau yn y stumog, cur pen a chwydu. Mae defnyddio plaladdwyr yn halogi ffynonellau dŵr lleol hefyd, gan effeithio ar ansawdd dŵr yfed a bywyd dyfrol. Mae colli cynefinoedd naturiol a'r defnydd trwm o gemegau yn lleihau bioamrywiaeth, ac yn niweidio pryfed buddiol, adar, a bywyd gwyllt arall sy'n helpu i reoli plâu, ac yn fygythiad i iechyd anifeiliaid domestig yn y pentrefi.

## "Ydyn nhw angen ein lladd ni i fwydo'r byd?"

*"Maen nhw'n cymryd mantais ar yr offer hyn ac yn eu defnyddio fel pe baent yn arfau cemegol. Roedd gennyn ni'r broblem 'ma lle'r oedd ffermwyr yn chwistrellu gwenwyn ar y gymuned ac yn gwneud pawb yn sâl. Mae wedi digwydd mewn o leiaf dwy gymuned yn barod, fe wnaethon nhw chwistrellu gwenwyn gyda thractor ac unwaith, gydag awyren."*

*"Yn aml, mae rhai pobl yn mynd yn sâl, mae'r anifeiliaid yn marw, mae cywion ieir yn marw bob amser. Bob tro mae plaladdwyr yn cael eu defnyddio, mae pobl yn y gymuned yn cael cur pen, yn teimlo'n sâl ac weithiau, yn chwydu ac yn cael dolur rhydd. A gan nad oes gennym lanweithdra sylfaenol o ansawdd, rydym yn fwy agored i niwed."*

Mae planhigfeydd ffa soia anferth Brasil, sy'n cwmpasu ardal o faint yr Almaen,[34] wedi gwneud iddo fod yn farchnad fwyaf y byd ar gyfer plaladdwyr ac ar gyfer plaladdwyr peryglus iawn (HHP), sy'n cael eu categoreiddio fel niwsans difrifol i iechyd dynol neu'r amgylchedd.[35] Ffermio ffa soia ydy defnyddiwr mwyaf agrogemegau ym Mrasil, ac maen nhw'n gyfrifol am 50 y cant o'r gwerthiannau. Roedd bron i ddwy ran o dair o wariant Brasil ar blaladdwyr peryglus iawn er mwyn eu defnyddio ar gyfer soia, sydd yn cael ei dyfu i ddarparu'r galw byd-eang am borthiant anifeiliaid, gan gynnwys o Ewrop.[36] Mae Brasil bellach yn defnyddio tua 20 y cant o'r holl blaladdwyr sydd yn cael eu gwerthu ar draws y byd. Mae'r sefyllfa hon wedi cynyddu oherwydd cymeradwyaeth y ddeddfwriaeth ddadleuol 'Pecyn Gwenwyn' a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwanhau rheoliadau presennol ar gymeradwyo a defnyddio plaladdwyr yn sylweddol, ac yn caniatáu i gemegau cael eu cofrestru sydd wedi cael eu gwahardd yn yr Undeb Ewropeaidd cyn hynny oherwydd eu natur beryglus.

Rhwng 2014 a 2017, fe ganfuodd mwy na 1,300 o fwrdeistrefi Brasil bod pob un o'r 27 cemegyn sydd yn cael eu monitro yn eu cyflenwad dŵr, llawer ohonynt yn wenwynig iawn neu'n gysylltiedig â chanser, diffygion genetig, ac anhwylderau hormonaidd.[37] Cadarnhaodd astudiaeth 2022 gan Brifysgol Western Paraná State University a Phrifysgol Harvard ledaeniad helaeth o ddŵr yfed wedi'i halogi yn Paraná, gyda lefelau cemegol o'r gwenwyn yn llawer uwch na'r terfynau diogelwch Ewropeaidd, ac wedi'u cysylltu'n gryf ag achosion o ganser.[38]

**Yn ôl data gan Weinidogaeth Iechyd Brasil,[39] rhwng 2014 a 2017, canfuodd 1,396 o daleithiau Brasil bob un o'r 27 cemegyn yn y dŵr oedd i fod i gael eu profi yn ôl y gyfraith. Fe wnaeth Awdurdod Rheoleiddio Iechyd Brasil (Anvisa) gategoreiddio 16 fel bod yn hynod wenwynig neu'n wenwynig iawn, tra bod 11 yn gysylltiedig â datblygu clefydau cronig fel canser, camffurfiad ffetysau, a chamweithrediadau hormonaidd ac atgenhedlu. Ymhlith y 27 cemegyn hyn, gwaharddwyd 21 gan yr Undeb Ewropeaidd oherwydd y risgiau i iechyd a'r amgylchedd; fe wnaeth Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr UD gategoreiddio pump fel "carsinogenau tebygol"; ac mae'r Undeb Ewropeaidd wedi nodi chwech fel rhai sy'n achosi anhwylder endocrin.**

34 https://justicepesticides.org/en/2021/05/10/eu-mercosur-the-vicious-circle-of-pesticides/
35 https://unearthed.greenpeace.org/2020/02/20/brazil-pesticides-soya-corn-cotton-hazardous-croplife/
36 https://unearthed.greenpeace.org/2020/02/20/brazil-pesticides-soya-corn-cotton-hazardous-croplife/
37 https://portrasdoalimento.info/2019/04/15/ coquetel-com-27-agrotoxicos-foi-achado-na-agua-de-1-em-cada-4-municipios/#.
38 https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/ S0160412022002483?s=08#!
39 https://portrasdoalimento.info/2019/04/15/coquetel-com-27-agrotoxicos-foi-achado-na-agua-de-1-em-cada-4-municipios/#

Mae llawer o'r plaladdwyr hyn wedi cael eu gwahardd yn y DU oherwydd eu gwenwyndra eithafol, fel dicwat – sy'n debyg iawn i baracwat. Fodd bynnag, er eu bod wedi'u gwahardd i'w defnyddio yn y DU, maen nhw'n dal i gael eu cynhyrchu yma ac yn cael eu hallforio i Frasil, lle maen nhw'n achosi niwed di-ben-draw i weithwyr ffermydd, Pobl Frodorol, cymunedau lleol a bioamrywiaeth. Er enghraifft, mae Greenpeace yn adrodd[40] bod Reglone, brand poblogaidd o blaladdwr ym Mrasil, sy'n cynnwys 20 y cant o dicwat[41], yn cael ei gynhyrchu yn Huddersfield[42] gan gwmni agrocemegol Syngenta, sydd â'i brif swyddfa yn y Swistir. Mae dicwat wedi'i wahardd rhag cael ei ddefnyddio ar ffermydd Prydain a'r Swistir ers 2020, ar ôl i arbenigwyr yr UE[43] ddod i'r casgliad ei fod yn peri 'risg uchel' i bobl sy'n byw ger y caeau lle y'i chwistrellwyd. Fodd bynnag, mae cyfraith Prydain yn caniatáu i Syngenta barhau i gynhyrchu'r plaladdwr yn y DU, er mwyn ei allforio i wledydd sydd â rheoliadau llai llym.


**Mae achosion o wenwyno gan dicwat wedi cynyddu yn Paranā yn y blynyddoedd diweddar, lle mae'r defnydd o'r plaladdwr ar blanhigion soia wedi cynyddu i gynorthwyo cynhyrchiant.[44]**

Os caiff ei fwyta, mae dicwat yn niweidio'r llwybr treulio, ac yn effeithio ar sawl organ gan gynnwys yr ymennydd, yr arennau, y galon a'r afu.[45] Gall ei gefnder agos, paracwat, fod yn gysylltiedig â'r risg gynyddol o gael clefyd Parkinson.[46] Mae'n biogronni yn y pridd ac mae'n hydawdd iawn mewn dŵr, sy'n ei wneud yn hynod niweidiol i ecosystemau dŵr ac amrywiaeth bywyd gwyllt ar y tir.[47]

Mae'r chwynladdwr glyffosad yn tynnu sylw at y gwahaniaeth hwn hefyd: mae Brasil yn caniatáu lefelau gweddillion 200 gwaith yn uwch na'r UE, ac mae ei ddefnydd yn Paraná yn llawer uwch na lefelau Ewropeaidd. Mae ymchwil yn tynnu sylw at wrthgyferbynnu ar draws y byd: mae'r DU a'r Undeb Ewropeaidd yn cyfyngu llawer o gyffuriau plaladdwyr gartref, ond yn parhau i'w cynhyrchu a'u hallforio i wledydd fel Brasil, lle mae rheoliadau gwannach yn galluogi defnydd dwys. Trwy'r fasnach fyd-eang mewn nwyddau, mae perygl bod y sylweddau gwenwynig hyn yn llifo trwy gadwyni cyflenwi i wledydd defnyddwyr.[48,49] Mae angen i'r DU gysoni ei arferion allforio gyda'i safonau domestig ar frys, i sicrhau bod iechyd pobl ac iechyd yr amgylchedd yn cael eu gwarchod ar draws y byd.



*Ffig. 8. Plant Avá Guarani yn gwylio chwistrellydd plaladdwr, credyd: CGY*



*Ffig. 9. Llun plentyn Avá Guarani o chwistrellydd plaladdwr*

40 https://unearthed.greenpeace.org/2024/12/08/brazil-farmers-poisoned-banned-pesticide-diquat-syngenta-export-uk/
41 https://www.syngenta.com.br/product/crop-protection/herbicida/reglone
42 https://www.syngentaturf.co.uk/huddersfield
43 https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32018R1532&from=PL#:~:text=The%20approval%20of%20the%20active%20substance%20diquat%20is%20not%20renewed.&text=Member%20States%20shall%20withdraw%20authorisations,May%202019%20at%20the%20latest
44 https://unearthed.greenpeace.org/2024/12/08/brazil-farmers-poisoned-banned-pesticide-diquat-syngenta-export-uk/
45 https://usrtk.org/healthwire/diquat-herbicide-poisons-the-gut-may-severely-damage-other-organs/
46 https://www.frontiersin.org/journals/pharmacology/articles/10.3389/fphar.2025.1562182/full
47 https://www.mdpi.com/2076-3921/14/6/721
48 https://www.cell.com/cell-reports-sustainability/fulltext/S2949-7906%2824%2900067-3?utm_source=chatgpt.com
49 https://www.soilassociation.org/causes-campaigns/stop-poison-poultry/

# O Ddatgoedwigo i Lygru Afonydd: Y Cysylltiad Soia Byd-eang

Mae'r soia sydd yn cael ei dyfu ym Mrasil, yn aml ar dir wedi'i ddatgoedwigo, nid yn unig yn ysgogi colli bioamrywiaeth a dinistrio ecosystemau dramor, ond hefyd, yn cael effaith uniongyrchol ar afonydd a thir Cymru. Mae llawer o'r soia hwn yn diweddu fyny mewn porthiant anifeiliaid ar gyfer systemau da byw yng Nghymru, yn enwedig ar ffermydd dofednod a llaeth.

Mae porthiant anifeiliaid sydd yn cael ei fewnforio, yn enwedig soia, yn uchel mewn ffosfforws. Ar ôl cael ei fwyta gan dda byw, mae'r ffosfforws hwn yn cael ei ysgarthu mewn gwrtaith maeth-gyfoethog. Pan mae'r gwrtaith hwn yn cael ei wasgaru ar dir ffermio, mae'r maetholion gormodol hyn yn llifo i afonydd a dŵr daear, ac yn cysylltu datgoedwigo dramor â llygredd dŵr croyw gartref.[50] Mae'r cysylltiad byd-eang/lleol hwn yn tynnu sylw at sut mae patrymau bwyta yng Nghymru yn cyfrannu at ddiraddio'r amgylchedd ac at gam-drin hawliau dynol dramor, ac yn llygru afonydd gartref, ac yn dangos bod angen ffynonellau bwyd ac arferion amaethyddiaeth mwy cynaliadwy.

Mae llygredd dŵr croyw yn broblem ddifrifol yng Nghymru, gyda data diweddar gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dangos mai dim ond 40 y cant o gyrff dŵr yng Nghymru sy'n cyrraedd statws ecolegol da, ac mae saith allan o naw o'n hafonydd gwarchodedig, a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yn methu oherwydd llygredd gan faetholion.[51] Cynnydd o bump allan o naw yn 2021. Hefyd, gostyngiad o 70 y cant mewn brithyll dros y 10 mlynedd diwethaf.[52]


Er bod nifer o yrwyr llygredd dŵr croyw yng Nghymru, mae'r sector amaethyddiaeth a rheoli tir yn cyfrif am gyfran uchel o sylweddau llygryddion yn nyfrffyrdd Cymru, sy'n broblem fawr a pharhaus.[53] Pan fydd hi'n bwrw glaw, mae taeniadau a wasgerir ar y tir (slyri a thail, ysgarthion ieir, gwrtaith synthetig) a phridd wedi'i ddiraddio yn cael eu golchi i lawr ar hyd traciau fferm, trwy giatiau ac i ddraeniau caeau ac afonydd. Mae'r maetholion hyn yn treiddio'n ddyfnach i mewn i'r ddaear hefyd, gan lygru dŵr daear. Mae gormod o faetholion yn ein hafonydd yn cyfrannu at broses o'r enw ewtroffigedd, sy'n rhwystro golau'r haul, gan arwain at ordyfiant algâu, disbyddu ocsigen ac yn y pen draw, bywyd dyfrol yn marw.



Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar afonydd Cymru a'r bywyd gwyllt sydd yn byw ynddynt, ond mae'n golygu hefyd, bod ffermwyr yn colli adnodd gwerthfawr yn y pridd a'r maetholion sydd yn cael eu golchi i ffwrdd.

**Mae bron i 90 y cant o dir yng Nghymru wedi'i neilltuo i ffermio, ac felly, mae gan amaethyddiaeth rôl hanfodol i'w chwarae mewn gwella ansawdd dŵr ac yn sgil hynny, mewn cadw ein hafonydd yn iach.**

50 https://www.soilassociation.org/media/27139/stop-killing-our-rivers.pdf (t5, t31, t33).
51 https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/news/new-water-quality-data-sheds-light-on-health-of-wales-s-waters/?lang=en
52 https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/news/vulnerable-salmon-and-sea-trout-continue-to-decline-despite-conservation-efforts-from-anglers-and-nets/?lang=en
53 https://research.senedd.wales/media/v3fl5zes/23-12-water-quality-in-wales.pdf



Yn yr afonydd Gwy ac Wysg, adroddir bod llwyth ffosfforws (maetholyn allweddol) o 72 y cant a 67 y cant[54] yn y drefn honno, o ddefnydd tir gwledig. Yn afonydd Teifi a Dyfrdwy, adroddir hyn ar 28 y cant a 24 y cant,[55] sef mater llai ond arwyddocaol o hyd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd bod dros 60 y cant o gyrff dŵr a aseswyd yng Nghymru wedi methu â chyrraedd targedau ffosfforws.[56]

Mae ffermio niferoedd sylweddol o anifeiliaid mewn dalgylch cymharol fechan, er enghraifft dofednod mewn Unedau Cywion Dwys (IPUs) neu wartheg godro mewn systemau sy'n defnyddio slyri, yn creu symiau mawr o wrtaith anifeiliaid sydd angen eu defnyddio neu eu gwaredu. Po fwyaf yw nifer yr anifeiliaid mewn dalgylch, y mwyaf anodd yw hi i ddefnyddio'r gwastraff a gynhyrchir mewn ffordd sy'n fuddiol i'r tir.

Mae'r cylch dinistriol hwn yn aml yn cael ei reoli gan gwmnïau amlwladol mawr. Er enghraifft, yn nalgylch Gwy, mae Unedau Cywion Dwys yn gartref i fwy na 20 miliwn o adar ar unrhyw adeg, gyda dros dri chwarter yn cael eu cynhyrchu o dan gontract i Avara Foods – cynhyrchydd cyw iâr sy'n cyflenwi cig i lawer o siopau mawr Prydain. Mae Avara yn contractio tua 100 o ffermydd cywion ieir yn nalgylch Gwy ac yn is-gwmni i Cargill[57], corff bwyd mawr amlwladol, sy'n masnachu ac yn prosesu ffa soia ar gyfer porthiant ar draws y byd.[58]

Mae'r enghraifft hon yn amlygu'r niwed a achosir gan ein system fwyd bresennol a pham bod angen newid brys. Mae cynhyrchiant da byw dwys yn creu effaith gymdeithasol ac amgylcheddol ar ddau ben y gadwyn gyflenwi ym Mrasil, lle mae'r soia'n cael ei dyfu ar dir wedi'i ddatgoedwigo sy'n dadleoli Pobl Frodorol a'r cymunedau lleol, ac yng Nghymru a Swydd Henffordd, lle mae llawer o Unedau Cywion Dwys wedi'u crynhoi. Ar adeg ysgrifennu, mae Avara Foods a Dŵr Cymru / Welsh Water yn ddiffynyddion mewn hawliad cyfreithiol a gyflwynwyd gan y cwmni cyfreithiol Leigh Day, sy'n honni cyfrifoldeb am ordyfiant algâu ac ewtroffeiddio yn yr Afon Gwy.[59] Mae'r achos yn canolbwyntio ar y nifer fawr o wrtaith cywion ieir sydd wedi'i wasgaru ar draws y dirwedd, sydd yn rhyddhau ffosfforws a maetholion eraill i'r afon, ac yn arwain at lygredd a dirywiad ecolegol.

**Mae'n enghraifft glir o sut mae cadwyni cyflenwi byd-eang ac arferion ffermio lleol wedi'u cysylltu'n agos, gyda chanlyniadau dinistriol posibl i bobl a natur.**

54 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-07/tackling-phosphorus-pollution-in-special-area-of-conservation-sac-rivers-information-and-evidence-pack.pdf t.32 t.29

55 https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/water-quality/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-phosphorus-targets/?lang=en

56 https://www.gov.wales/relieving-pressures-special-areas-conservation-sac-river-catchments-support-delivery-affordable#:~:text=Phosphorus%20pollution%20in%20Wales%27%20SAC,SAC%20rivers%20failing%20phosphate%20targets.


57 https://www.poultrynews.co.uk/business-politics/business/exclusive-interview-avara-foods-opens-up.html

58 https://www.cargill.co.uk/en/agriculture

59 https://www.leighday.co.uk/news/news/2025-news/wye-pollution-legal-claim-filed-at-high-court/

# Ôl-troed soia Cymru

Mae'r adroddiad Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang[60] a gomisiynwyd gan Maint Cymru, WWF Cymru a'r RSPB, yn amcangyfrif bod Cymru yn mewnforio tua 190,000 tunnell o soia bob blwyddyn, ac angen ardal o dir sy'n fwy na Sir Fynwy.



Mae bron i dri chwarter o'r olion troed tir o ran mewnforio soia yn cwmpasu gwledydd sydd mewn risg uchel neu risg uchel iawn o ddatgoedwigo ac/neu faterion cymdeithasol, gan gynnwys Paraguay, Brasil a'r Ariannin. Mae hyn yn cynhyrchu dros 1.1 miliwn tunnell o CO2e bob blwyddyn, y mwyafrif ohonyn nhw o ganlyniad i drosi cynefin. Mae tua 80 y cant o fewnforion soia Cymru yn cael eu bwydo i dda byw, gyda dofednod yn bwyta 48 y cant, llaeth 20 y cant a defaid 19 y cant. Mae mewnforion soia Cymru yn cyfrif am chwech y cant o gyfanswm mewnforion soia'r DU. Mae hyn yn uchel o ystyried cyfran Cymru o Gynnyrch Domestig Gros y DU a'i phoblogaeth, ac yn cael ei egluro gan sector da byw cymharol fawr Cymru, yn enwedig llaeth, cig eidion a chig oen.[61]

Mae rhywfaint o'r soia hwn ag ardystiad cynaliadwy o dan y Ford Gron ar Soia Cyfrifol (RTRS). Fodd bynnag, mae llawer o gyflenwyr bwyd, gan gynnwys Wynnstay,[62] yn defnyddio system Balans Màs RTRS, lle mae soia wedi'i ardystio yn cael ei gymysgu â soia heb ei ardystio, ac mae cwmnïau'n prynu tystysgrifau i gwmpasu eu defnydd. Er bod y dull hwn yn cefnogi cynhyrchu mwy cynaliadwy heb y costau uchel o gadwyni cyflenwi wedi'u gwahanu'n llwyr (Systemau Diogelu Hunaniaeth neu wedi'u Gwahanu), nid yw'n gwarantu bod y soia wedi'i ardystio yn cael ei fwydo go iawn i dda byw.

Mae'r system hon yn broblemus oherwydd, yn debyg i wrthbwyso carbon, mae'n caniatáu i arferion busnes fel arfer barhau, heb ostyngiadau go iawn mewn olion troed datgoedwigo Cymru dramor neu mewn allyriadau cysylltiedig ag ymddygiad. O ystyried bod tua 70 y cant o ddatgoedwigo trofannol a chyfran fawr o'r allyriadau cysylltiedig yn cael eu hachosi gan amaethyddiaeth, gallai peidio â chyfeirio at gadwyni cyflenwi bwyd Cymru danseilio ymdrechion cenedlaethol i leihau allyriadau cynhyrchu.

**Felly, gallai lleihau mewnforio soia ar gyfer porthiant anifeiliaid helpu i lanhau afonydd Cymru a lleihau effeithiau datgoedwigo trofannol.**

Gall symud i ffwrdd oddi wrth fewnbynnau fferm costus helpu ffermwyr yng Nghymru hefyd. Mae costau bwyd, tanwydd a gwrtaith wedi codi'n sylweddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf oherwydd y pwysau prisiau byd-eang, galw cynyddol, a chostau egni uwch. Gwelsodd porthiant anifeiliaid, sydd o bryder arbennig i ffermydd llaeth, cig eidion a defaid, gynnydd o 44 y cant mewn costau ar gyfer ffermydd llaeth, a 39 y cant ar gyfer ffermydd cig eidion a defaid rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mai 2024.[63]

60 https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2021-11/wwf_risky_b_wales.pdf
61 https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/wwf_risky_b_wales.pdf
62 https://www.wynnstay.co.uk/blog/what-is-certified-sustainable-soya/
63 https://ahdb.org.uk/news/farm-input-costs-have-risen-sharply-over-past-five-years

## Sut mae galw cynyddol am gyw iâr yn gyrru datgoedwigo ac anghydraddoldeb cymdeithasol ym Mrasil.

1

**GALW CYNYDDOL**
am gig cyw iâr

2

Mae
**CYMRU'N MEWNFORIO**
soi sy'n peri risg datgoedwigo i Frasil

3

Mae dofednod yn bwyta bron i **50%** o'r holl soi a fewnforir

4

Mae unedau dofednod dwys yng Nghymru yn cynhyrchu
**DEGAU O FILYNAU**
o adar bob blwyddyn

5

**MAE BRIDIAU SY'N TYFU'N GYFLYM**
yn dibynnu'n helaeth ar soi sy'n gyfoethog mewn protin i sbarduno twf cyflym

6

Mae cynhyrchu soi dwys yn achosi
**DATGOEDWIGO A CHANLYNIADAU CYMDEITHASOL YM MRASIL**



# 5. Cost Gwirioneddol Cig Eidion

Brasil ydy ail gynhyrchydd cig eidion mwyaf y byd a'r allforiwr mwyaf. Yn 2021, cynhyrchodd 9.7 miliwn tunnell o gig eidion[64] ar ôl lladd 39 miliwn o wartheg. O hyn, cafodd 2.4 miliwn tunnell o gig eidion (26 y cant) ei allforio.

Mae cynhyrchu cig eidion yn brif yrrwr datgoedwigo ym Mrasil, yn enwedig ym miomas yr Amazon a'r Cerrado, gyda

**90 y cant o'r datgoedwigo yn yr Amazon ym Mrasil yn cael ei achosi gan drosi tir i borfa i gynhyrchu cig gwartheg a lledr.[65]**

Mae hyn yn adlewyrchu sut mae'r galw byd-eang am gig a lledr rhad yn arwain at glirio coedwigoedd ar raddfa fawr. Cynyddodd swm y tir a droswyd yn uniongyrchol i borfa ar gyfer gwartheg o tua 590,000 hectar yn 2016 i 948,700 hectar yn 2020 – cynnydd o 60 y cant.[66] Mae eangdiroedd maith o goedwigoedd yn cael eu llosgi a'u clirio i greu tir pori, sydd yn rhyddhau symiau mawr o garbon deuocsid sydd yn cael ei storio mewn coed a phridd, ac yn gwthio rhywogaethau yn agosach at ddiflannu. Achosodd y newid hwn mewn defnydd tir 46 y cant o allyriadau cenedlaethol Brasil yn 2020.[67]

Mae JBS yn un o gwmnïau prosesu cig mwyaf y byd, gyda'i brif swyddfa yn São Paulo, Brasil, ac mae'n gynhyrchydd cig eidion byd-eang blaenllaw. Mae'r cwmni'n prosesu miliynau o wartheg bob blwyddyn, ac yn cyflenwi cig eidion ffres ac wedi'i brosesu i'r marchnadoedd domestig a rhyngwladol. Er bod JBS yn dominyddu allforion cig eidion ar draws y byd, mae wedi wynebu beirniadaeth sylweddol am ei effaith amgylcheddol a chymdeithasol, gan gynnwys cysylltiadau â datgoedwigo honedig yn yr Amazon a'r Cerrado, cyflenwi gwartheg o dir a gliriwyd yn anghyfreithlon, a gwrthdaro â'r Bobl Frodorol.

Yn 2017, cafodd y cawr pecynnu cig JBS ei gosbi gyda dirwy o R$24.7 miliwn (tua £3.2 miliwn) am ei rôl mewn datgoedwigo anghyfreithlon yn yr Amazon, er bod y cwmni wedi gwrthod yr honiadau. Yn 2017, nododd ymchwiliad gan Heddlu Ffederal Brasil bod gweithredwyr JBS wedi breibio arolygwyr i newid dyddiadau dod i ben cig, gan ganiatáu i gynhyrchion gael eu gwerthu'n fewnol a thramor. Mae cadwyn gyflenwi'r cwmni hefyd wedi'i chysylltu â ranshis sydd wedi'u cyhuddo o ddefnyddio llafur dan orfod. Ers hynny, mae mwy o wrthdaro wedi parhau i ymddangos. Yn ôl data Trase, roedd JBS yn gyfrifol am ddatgoedwigo 231,808 hectar yn 2020, i fyny o 206,428 hectar yn 2016.[68]

Er gwaethaf y problemau hyn, mae allforion corn-bîff i'r DU wedi parhau i fod yn gryf. Erbyn 2018, cyrhaeddodd mewnforion y DU o gorn-bîff 28,550 tunnell, gyda Brasil yn cyflenwi 95 y cant o'r cyfanswm hwnnw a bron hanner yn tarddu o weithrediadau JBS. Roedd y fasnach werth tua £42 miliwn, gan nodi cynnydd o bron i 25% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[69]

64 https://www.abiec.com.br/wp-content/uploads/Beef-Report-2022_atualizado_jun2022.pdf
65 Chandrakant Singh, Simon Croft, Lydia Marsden et al (2025) Amazon's deforestation footprint across global food and financial systems [Llawysgrif wedi'i gyflwyno i'w gyhoeddi], Chalmers University of Technology
66 https://trase.earth/insights/brazilian-beef-exports-and-deforestation
67 https://www.frontierspartnerships.org/journals/pastoralism-research-policy-and-practice/articles/10.3389/past.2025.14461/full#B78
68 https://trase.earth/insights/brazilian-beef-exports-and-deforestation
69 https://www.earthsight.org.uk/news/idm/brazil-corned-beef-jbs-uk-supermarkets-deforestation-amazon

Y tu hwnt i ddifrod amgylcheddol, mae'r diwydiant gwartheg wedi'i gysylltu â phryderon hawliau dynol difrifol, gan gynnwys cipio tir, trais yn erbyn Pobl Frodorol a chymunedau lleol, ac arferion llafur ecsbloetiol. Mae ymchwiliad diweddar a gynhaliwyd gan Greenpeace Brasil wedi datgelu'r honiad y gallai cig eidion o wartheg a fagwyd yn anghyfreithlon ar dir brodorol wedi'i ddiogelu yn yr Amazon fod wedi diweddu fyny ar fwydlenni bwytawyr ar draws y byd, ar ôl mynd i mewn i gadwyni cyflenwi JBS, y cwmni cig eidion enfawr ym Mrasil.[70]

Mae cadwyni cyflenwi rhyngwladol yn cysylltu cig eidion a lledr o ardaloedd sydd wedi cael eu datgoedwigo ym Mrasil gydag archfarchnadoedd, cadwyni bwytai cyflym, a brandiau ffasiwn ar draws y byd. Er bod rhai cwmnïau wedi gwneud addewidion dim datgoedwigo, mae gorfodaeth wan a chadwyni cyflenwi anhryloyw yn caniatáu i wartheg a fagwyd ar dir sydd wedi cael ei ddatgoedwigo fynd i farchnadoedd ar draws y byd. O ganlyniad, cig eidion yn parhau i fod yn un o ysgogwyr mwyaf pwerus datgoedwigo a newid hinsawdd, gyda chanlyniadau eang i fioamrywiaeth, cymunedau Brodorol, a sefydlogrwydd yr hinsawdd fyd-eang.

## Ôl-troed cig eidion wedi'i fewnforio i Gymru

Mae mewnforion i Gymru yn cyfateb i 12,000 tunnell o gig eidion bob blwyddyn, ac mae hanner ohono'n ffres neu wedi'i oeri a'r gweddill wedi'i rewi neu mewn cynhyrchion wedi'u prosesu fel corn-bîff. Mae cwrdd â'r galw hwn yn gofyn am gyfartaledd o 136,300 hectar o dir dramor bob blwyddyn – ardal sy'n cyfateb i'r Bannau Brycheiniog. O hyn, mae 26 y cant mewn gwledydd sydd mewn perygl uchel o ddioddef datgoedwigo a materion cymdeithasol, fel Brasil.[71] Er bod Cymru'n cyflwyno cyfran fechan o boblogaeth a Chynnyrch Gros Domestig y DU, mae ei mewnforion cig eidion yn cyfrif am 5 y cant o gyfanswm y DU, sy'n gymharol uchel. Mae gan Gymru gyfran uwch hefyd o'i hôl-troed tir cig eidion ym Mrasil o'i chymharu â gweddill y DU (15 y cant yn erbyn 12 y cant), yn bennaf oherwydd lefelau uwch o fwyta corn-bîff, sydd yn cael ei gyrchu bron yn gyfan gwbl ym Mrasil.

Ar hyn o bryd, mae contractau caffael sector cyhoeddus Cymru yn prynu corn-bîff o Hertford Fine Foods, sy'n frand JBS Global.[72]




**MAE RHAN FWYAF O ÔL TROED TIR CIG EIDION CYMRU DRAMOR YM MRASIL – SYDD MEWN PERYGL UCHEL O DDATGOEDWIGO.**

*Ffynhonnell: Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang*[73]

70 https://www.greenpeace.org/international/publication/78760/jbs-beef-exports-illegal-cattle-indigenous-land/
71 https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2021-11/wwf_risky_b_wales.pdf
72 https://www.hertfordfinefoods.com/products/hertford-corned-beef/ https://www.jbsglobal.co.uk/brands/
73 https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/wwf_risky_b_wales.pdf

# 6. Ysgogi Newid: Gweithredu Dim Datgoedwigo yng Nghymru




Bedair blwyddyn yn ôl yn COP26 yn Glasgow, ymrwymodd dros 140 o wledydd i roi terfyn ar ddatgoedwigo erbyn 2030. Cefnogodd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James, yr ymrwymiad hwnnw, ac meddai *"Rwy'n benderfynol y bydd Cymru yn wlad na fydd yn datgoedwigo'r blaned. Rwy'n mynd i newid beth dwi'n ei wneud ac rydym yn mynd i newid beth mae Cymru'n ei wneud".*




*Ffig. 10. Pamuk Ayatke (Is-lywydd Cenedl y Wampís) gyda Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd. Credyd: LIC*

Cafodd ei phenderfyniad ei atgyfnerthu wrth gyfarfod ag arweinydd o Genedl Frodorol y Wampís o'r Amazon ym Mheriw yn ystod y gynhadledd. Fe wnaeth clywed am effaith ddinistriol datgoedwigo ar y Bobl Frodorol, eu tir a'u diwylliant, dynnu sylw at y brys o weithredu nid yn unig dros yr hinsawdd a bioamrywiaeth ond hefyd, dros gyfiawnder byd-eang. Pwysleisiodd y cyfarfod hwnnw yr angen i Gymru chwarae ei rhan mewn lleihau datgoedwigo trofannol a bod yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yng Nghymru, gallwn leihau ein hôl-troed datgoedwigo mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy gaffael cyhoeddus dim datgoedwigo, arferion bwyd a ffermio cynaliadwy, pensiynau moesegol a chydweithredu rhyngwladol. Felly, pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud ers 2021?




**Mae caffael cyhoeddus yn fecanwaith allweddol sydd yn gallu cael ei ddefnyddio i hyrwyddo arferion dim datgoedwigo a chadwyni cyflenwi yn fwy eang.**

Mae rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud yng Nghymru, er bod angen gweithredu ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys meini prawf datgoedwigo a throsi yn ei hadnodd Caffael – Asesiadau Risg Cynaliadwyedd, y disgwylir i gyrff cyhoeddus ei gwblhau ar gyfer contractau dros £25,000, er nad yw hyn yn orfodol. Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael wedi gwreiddio nodau llesiant Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru) yn y broses caffael cyhoeddus, gyda Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gryfhau meini prawf cyfrifoldeb byd-eang o fewn y canllawiau statudol, a disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn 2026.

Ar lefel llywodraeth leol, mae arweinyddiaeth sylweddol wedi cael ei ddangos i hyrwyddo datgoedwigo ac arferion caffael heb drosi. Yn 2023, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CCBC) wreiddio meini prawf dim datgoedwigo gorfodol i fframwaith caffael bwyd £228 miliwn[74] sy'n cwmpasu 20 o gyrff cyhoeddus yng nghanolbarth a de Cymru, a 21 o gyflenwyr. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys lleihau bwyta bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, cyrchu cig a llaeth organig, llesiant uwch, gofyn am olew palmwydd wedi'i ardystio gan yr RSPO, lle na ellir osgoi defnyddio llai, sicrhau bod bwyd môr wedi'u hardystio gyda'r MSC/ASC, hyrwyddo coffi a choco Masnach Deg a chynyddu amrywiaeth bwydydd tymhorol a bwydydd planhigion. Mae contractau o dan y fframwaith hwn wedi'u dyfarnu erbyn hyn, gyda phrosesau monitro ac asesu yn cael eu datblygu i weld a yw'r meini prawf hyn yn cael eu cyrraedd. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi mynd un cam ymhellach, gan ddod y Cyngor Hyrwyddo Dim Datgoedwigo[75] cyntaf Cymru (ac efallai'r byd), drwy fabwysiadu'n unfrydol Siarter Dim Datgoedwigo.[76] Mae'r Cyngor eisoes wedi gweithredu i wella cyrchu mewn prydau ysgol, gan gynnwys defnyddio dim ond coco Masnach Deg, cyrchu'r holl gig eidion o Gymru'n unig, cyflwyno prydau planhigion dim datgoedwigo newydd, a lleihau defnyddio olew palmwydd, gyda mwy o gamau eu hangen i leihau soia cudd.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru[77] wedi argymell yn eu hadroddiad pum mlynedd bod yn rhad i sector cyhoeddus Cymru ddod yn sector dim datgoedwigo erbyn 2028, a darparu targed clir ar gyfer gweithredu cenedlaethol. I gefnogi hyn, mae Cyngor Caerdydd wedi gweithredu Strategaeth Gaffael Gymdeithasol Gyfrifol,[78] gan ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol, moesegol, a chymdeithasol mewn pob penderfyniad caffael, gan gynnwys mesurau i leihau'r risg o ddatgoedwigo. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn tynnu sylw at fomentwm cynyddol ar draws awdurdodau cyhoeddus Cymru i arwain trwy esiampl o ran caffael cynaliadwy a chyfrifol.

74 https://bidstats.uk/tenders/2023/W26/801636815
75 https://sizeofwales.org.uk/news/monmouthshire-county-council-becomes-worlds-first-deforestation-free-champion-council/
76 https://democracy.monmouthshire.gov.uk/documents/s40491/Deforestation%20Free%20Charter%20and%20Action%20Plan.pdf
77 https://futuregenerations.wales/cym/wp-content/uploads/2025/05/Future-Generations-Report-2025.pdf
78 https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Business/Tenders-commissioning-and-procurement/social-responsibility/socially-responsible-procurement-policy/Documents/Socially%20Responsible%20Procurement%20Policy.pdf




Mae ysgolion wedi bod ar reng flaen cynnydd Cymru tuag at gaffael nwyddau dim datgoedwigo, gan weithredu fel y prif ysgogwr ar gyfer newid system ehangach, gyda dros 32 yn dod yn Ysgolion Hyrwyddo Dim Datgoedwigo. Mae disgyblion wedi archwilio deietau eu hysgolion i asesu'r risg datgoedwigo mewn perthynas â'r cynhwysion a ddefnyddir, a'u heffaith amgylcheddol. Diolch i gefnogaeth y Clwb Coginio Cook Along, maen nhw hefyd wedi cynllunio a chreu dysglau cynaliadwy y dysgont eu coginio eu hunain, a newid y cynhwysion mwy peryglus a defnyddio dewisiadau cyfeillgar i goedwigoedd yn eu lle. Yn achos Sir Fynwy, arweiniodd hyn at greu korma ffacbys dim datgoedwigo, a ddangoswyd yn Ŵyl Fwyd y Fenni yn 2024 ac a osodwyd ar fwydlen yr ysgol.[79] Y flwyddyn ganlynol yn yr ŵyl, archwiliodd y disgyblion orffennol, presennol, a dyfodol bwyd, gan ddefnyddio teithio amser i archwilio hanes corn-bîff. Roedd hyn yn cynnwys creu pastai corn-bîff dim datgoedwigo, gan ddefnyddio cig eidion o Square Farm, fferm organig leol sydd ddim yn defnyddio porthiant soia rhagor. Ail-ddyluniodd y myfyrwyr, gyda chymorth y Clwb Coginio Cook Along, y rysáit gan ddefnyddio llai o gig eidion ond o ansawdd gwell a'i ychwanegu gyda llysiau organig o Square Farm, a chreu tro mwy cynaliadwy ar ryseitiau traddodiadol.[80]

**Mae'r gwaith hwn wedi rhoi pobl ifanc wrth galon y fenter dim datgoedwigo, gan lywio opsiynau bwyd yr ysgol yn weithredol, a chael llais go iawn mewn gwneud penderfyniadau.**

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod plant yn creu atebion cynaliadwy gyda'i gilydd, yn hytrach na bod yn dderbynwyr goddefol, ac yn dangos y pŵer o ymgysylltu â phobl ifanc wrth ysgogi gweithredu ymarferol ac ystyrlon ar gyfrifoldeb hinsawdd a byd-eang.

Ochr yn ochr â mentrau'r sector cyhoeddus, mae busnesau Cymreig yn cymryd camau hefyd i ysgogi gwelliannau yn eu cadwyni cyflenwi. Mae cyflenwyr contractau caffael cyhoeddus wedi dechrau archwilio cynhyrchion risg uchel, fel soia mewn porthiant anifeiliaid, ac mae rhwydweithiau cynaliadwyedd wedi'u sefydlu i archwilio opsiynau eraill a chryfhau cyrchu cyfrifol. Yn ogystal, mae sawl busnes wedi ymrwymo erbyn hyn i ddod yn Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo, gan ddangos bod momentwm ar gadwyni cyflenwi cynaliadwy yn tyfu y tu hwnt i'r sector cyhoeddus.



*© Luis Barreto / WWF-UK*

Mae fersiwn diweddaraf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru (SFS), sydd ar fin lansio ym mis Ionawr 2026, yn cyflwyno strwythur tair haen: Haen Gyffredinol, Haen Ddewisol, a Haen Gydweithredol. Tra bod yr Haen Gyffredinol yn gorfodi 12 cam gweithredu craidd ar gyfer yr holl ffermydd sydd yn cymryd rhan, gan gynnwys iechyd pridd, cynnal cynefinoedd, a llesiant anifeiliaid, nid yw'n mynd i'r afael yn ddiamwys â chyrchu porthiant anifeiliaid, fel bwydydd seiliedig ar soia. Mae'r diffyg hwn yn golygu, o dan y fframwaith presennol, nad oes unrhyw ofyniad i ffermwyr leihau neu roi terfyn ar ddefnyddio soia wedi'i fewnforio mewn porthiant anifeiliaid fel rhan o'u hymgysylltiad â'r cynllun. Gall yr haenau dewisol a chydweithredol, sy'n cynnig cefnogaeth ychwanegol ar gyfer arferion amgylcheddol mwy uchelgeisiol, ddarparu cyfleoedd i ffermwyr gymryd rhan mewn gweithredoedd sy'n lleihau dibyniaeth ar soia a fewnforiwyd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes cyfeiriadau penodol at hyn yn nogfennau'r cynllun. Mae'r bwlch hwn yn tynnu sylw at y cyfle a gollwyd i gysoni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda nodau amgylcheddol ehangach, fel lleihau olion amgylcheddol porthiant anifeiliaid a chefnogi'r trawsnewid i arferion ffermio mwy cynaliadwy.

79 https://www.youtube.com/watch?v=wgD6BnlgEDI
80 https://www.monmouthshirebeacon.co.uk/news/green-for-go-as-students-create-deforestation-free-pasties-for-food-festival-833527

Mae mentrau lleol yn dangos y potensial ar gyfer newid. Roedd prosiect peilot Cymunedau Dim Datgoedwigo Cyngor Sir Fynwy yn cynnwys cynllun mentora ffermydd, sy'n hyrwyddo arferion ailwladychol a lleihau porthiant sy'n risg i ddatgoedwigo. O ganlyniad, llwyddoodd Lower Farm House i dynnu soia o'i borthiant gwartheg, gan ddangos y gall camau ymarferol helpu i leihau ôl-troed tir tramor Cymru. Mae cefnogi arloesedd mewn dewisiadau porthiant eraill, diddymu dofednod diwylliannol yn raddol, a hyrwyddo systemau amaethecolegol sy'n sicrhau llesiant uwch yn gamau hanfodol nesaf i Lywodraeth Cymru, i helpu ffermwyr i symud tuag at gynhyrchu'n fwy cynaliadwy.

Mae gan bensiynau sector cyhoeddus Cymru, sydd yn cael eu rheoli drwy Bartneriaeth Pensiynau Cymru (WPP), fuddsoddiadau sylweddol mewn cwmnïau sy'n gysylltiedig â risgiau datgoedwigo, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â'r diwydiannau soia a chig eidion. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Maint Cymru yn dangos bod:

**Dros hanner (54 y cant) o fuddsoddiadau WPP mewn cleientiaid neu ddaliadau sydd yn agored i'r risg o ddatgoedwigo,**

gyda bron 10 y cant wedi'i fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â risg uchel o ddatgoedwigo, fel masnachu soia a chig eidion.[81] Mae PPC (Partneriaeth Pensiynau Cymru) wedi cwblhau ei adroddiad hinsawdd blynyddol ar lefel cronfeydd am y tro cyntaf, yn ogystal â dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o'r tebygrwydd o ddatgoedwigo o fewn ei Is-gronfeydd, Fodd bynnag, nid yw wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w bortffolios buddsoddi hyd yn hyn, i sicrhau nad yw buddsoddiadau'n cyfrannu at niwed amgylcheddol neu'n torri hawliau dynol sy'n gysylltiedig â datgoedwigo.

Mae hyrwyddo undod byd-eang a chyfiawnder hinsawdd yn hanfodol i ddiogelu ac adfer coedwigoedd ar draws y byd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn bartner allweddol yn rhaglen Tyfu Coed Mbale yn Uganda, gan gefnogi cymunedau sydd ar reng flaen yr argyfwng hinsawdd i ddosbarthu dros 25 miliwn o goed ers i'r rhaglen ddechrau. Mae'r coed wedi amsugno tua 1.4 miliwn o dunelli o $CO_2$ – sy'n cyfateb i 25 y cant o allyriadau trafnidiaeth




blynyddol Cymru. Mae hyn yn gyfraniad ystyrlon at y frwydr fyd-eang yn erbyn newid hinsawdd, a allai fod y bygythiad mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid hefyd i weithio gyda Phobl Frodorol Cenedl y Wampís i adeiladu'r llong gyntaf wedi'i phweru gan yr haul yn yr Amazon ym Mheriw, ac mae'n parhau i'w cefnogi i fonitro a diogelu eu tiroedd a hefyd, i hyrwyddo ffyniant cynaliadwy, gan gydnabod eu rhan hanfodol fel gwarchodwyr coedwigoedd y byd. Mae tiriogaeth y Wampís yn cwmpasu dros 1.3 miliwn hectar o goedwigoedd trofannol, ac yn storio 522 miliwn tunnell o C02e (sy'n gyfwerth â thua 15 mlynedd o allyriadau presennol Cymru[82]) ac yn amsugno 57 miliwn tunnell yn ychwanegol o CO2e y flwyddyn.[83] Mae Pobl Frodorol yn ffurfio llai na phump y cant o'r boblogaeth fyd-eang, ac yn chwarae rôl allweddol mewn diogelu coedwigoedd a bioamrywiaeth hanfodol, eto dim ond un y cant o gyllid hinsawdd maen nhw'n ei dderbyn.

Mae cefnogaeth tymor hir a chyllid uniongyrchol i Bobl Frodorol a chymunedau lleol yn hanfodol ar gyfer diogelu coedwigoedd a chadw bioamrywiaeth fyd-eang. Nid elusen yw hyn; ond gweithredu ar yr hinsawdd ar raddfa fawr. Mae hyn yn hanfodol hefyd ar gyfer ein hiechyd a'n llesiant ein hunain yng Nghymru. Fel firysau, rydym yn gwybod nad yw newid hinsawdd yn parchu ffiniau – mae ymdrechion i amddiffyn, ailgoedwigo a chynnal hinsawdd sefydlog yn fuddiol i'r ddynoliaeth yn ei chyfanrwydd. Mae ansefydlogrwydd mewn perthynas â'r hinsawdd yn unrhyw le yn effeithio ar systemau economaidd, mudo, ac iechyd ym mhob man. Gall sychderau a methiant cnydau yn Affrica arwain at anwadalrwydd o ran prisiau bwyd ar draws y byd, dadleoli, ac ansefydlogrwydd, sy'n treiddio i Ewrop a Chymru.

**Ni allwn ffynnu oni bai ein bod i gyd yn ffynnu.**

81 https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/05/Saving-for-the-future-Size-of-Wales-public-pension-report.pdf
82 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Greenhouse-Gas/emissionsofgreenhousegases-by-year?utm_source=chatgpt.com
83 https://nacionwampis.com/wp-content/uploads/2021/10/Wampis-Climate-Strategy-final3.pdf




# 7. Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus Cymru i weithredu ar frys i wneud popeth o fewn eu gallu a'u pŵer gwneud penderfyniadau i helpu i ddileu datgoedwigo, colli cynefinoedd a'r effeithiau cymdeithasol cysylltiedig o gadwyni cyflenwi Cymru trwy'r camau canlynol:

## 1. Diwygio Ffermio Cynaliadwy

- Cysoni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd (CFC) gyda nodau dim datgoedwigo: cefnogi ffermwyr i symud i ffwrdd o system sydd yn cael ei chynnal gan fwyd anifeiliaid o soia wedi'i fewnforio sy'n ysgogi datgoedwigo a cholli cynefin dramor, a hyrwyddo dewisiadau lleol amgen fel llysiau a dyfir yn y DU a systemau pesgi ar borfa. Dylid cynnig cefnogaeth hefyd i drosglwyddo i fodelau cynhyrchu â llai o effaith. Bydd hyn yn y pen draw yn lleihau'r cymeriant o borthiant anifeiliaid soia a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth, ac yn lleihau ôl-troed datgoedwigo byd-eang Cymru.
- Cyflwyno system gadarn o oruchwylio gweithgareddau mewn dalgylchoedd afon drwy gynnwys yr holl ffermio anifeiliaid mewnbwn uchel-cynnyrch uchel yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR), yn ogystal â lleihau'r trothwy lle mae trwyddedau amaethyddol yn disgyn o fewn yr EPR ar hyn o bryd. Dylid cynnwys gofynion effeithiol hefyd yn y system gynllunio, i atal effaith gronnus cael amryfal unedau da byw yn yr un dalgylch.







*© Aled Llywelyn / WWF Cymru*

## 2. Bwyd a Chaffael

### *Caffael Nwyddau Dim Datgoedwigo a Chadwyni Cyflenwi Moesegol*

- **Sicrhau bod safonau cadwyni cyflenwi gorfodol sy'n rhydd o ecsbloetio a datgoedwigo a throseddu yn cael eu cynnwys yn y Canllaw Statudol ar gyfer Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael. Mae hyn yn unol ag argymhelliad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod yn "rhaid i'r sector cyhoeddus ddod yn sector dim datgoedwigo erbyn 2028".**
- **Gorfodi cyrff cyhoeddus i brynu bwyd a deunyddiau sydd wedi'u cyrchu'n foesegol ac yn gyfrifol:**
  - Hyrwyddo caffael llai o gig a chynnyrch llaeth, ond o ansawdd gwell, a chynyddu'r ddarpariaeth o broteinau planhigion. Dylai cynnyrch cig a llaeth ddod o fathau o ffermio sy'n gyfeillgar i natur, fel systemau ailwladychol, amaeth-goedwigaeth, organig neu wedi'u pesgi ar laswellt, er mwyn sicrhau bod porthiant anifeiliaid yn rhydd o ddatgoedwigo.
  - Stopio caffael cig eidion o ardaloedd sydd â risg uchel o ddatgoedwigo, fel De America.

**Mae dewis cynhyrchion anifeiliaid cynaliadwy sydd wedi'u hardystio yn gallu helpu i gael gwared ar, neu leihau'n sylweddol, y risg o ddatgoedwigo a throsi cynefin corfforedig. Er enghraifft, mae'r safon Pasture for Life yn gwahardd porthiant seiliedig ar soia; ac o dan safon Organig Cymdeithas y Pridd, os nad ydy ffermwyr yn gallu cyrchu porthiant 100 y cant organig, gellir bwydo moch a dofednod gyda hyd at bump y cant o brotein anorganig. Felly, os oes unrhyw borthiant soia yn bresennol, rhaid i o leiaf 95 y cant gael ei dyfu o dan safonau organig, gan leihau'n sylweddol y risg o ddatgoedwigo corfforedig.**

### *Datblygu Cynllun Gwydnwch Bwyd Cenedlaethol gydag Effaith Fyd-eang*

- **Creu cynllun gwydnwch bwyd ar draws adrannau, sy'n cefnogi cadwyni cyflenwi lleol, cynaliadwy 'o'r fferm i'r fforc' a mewnforion wedi'u cyrchu'n foesegol.**
  - Gosod targedau ar gyfer cynnyrch lleol, ailwladychu a chyfeillgar i natur, fel organig.
  - Hyrwyddo cig, llaeth ac wyau 'llai, ond o ansawdd gwell'
  - Ehangu mynediad at dir cymunedol ar gyfer tyfu, i gefnogi mynediad at fwyd a thegwch e.e gerddi, rhandiroedd a gerddi ffrwythau.
  - Cefnogi systemau bwyd lleol, fel garddwriaeth ar gyfer cynhyrchu codlysiau a phroteinau planhigion amrywiol;
- **Cynorthwyo busnesau bwyd yng Nghymru i fabwysiadu polisïau dim datgoedwigo yn defnyddio adnoddau ymarferol fel pecyn adnoddau Busnes Dim Datgoedwigo Maint Cymru.**



### *Trawsnewid Bwyd Ysgolion ac Ymgorffori Dinasyddiaeth Fyd-eang*

- Diweddaru'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 i gynnwys darpariaethau ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol
- Cyllido rhaglenni addysg hinsawdd sy'n hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang ac arferion dim datgoedwigo i'r gymuned ysgol gyfan.
- Cynnwys addysg ymarferol am fwyd ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys cynhyrchu bwyd o'r fferm i'r fforc, paratoi bwyd a choginio, ymweliadau fferm a phrosiectau tyfu, gyda digon o amser i rannu bwyd maethlon.



*Mae disgyblion yn creu ac yn coginio seigiau dim datgoedwigo*

## 3. Cyfraith y DU – Eiriol dros Ddiwydrwydd Dyladwy Gorfodol

- Rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddefnyddio pwerau cyfreithiol a enillwyd yn sgil pasio Deddf yr Amgylchedd yn 2021, i weithredu cyfraith i sefydlu system diwydrwydd dyladwy, a chael gwared â datgoedwigo anghyfreithlon o gadwyni cyflenwi'r DU.



*© Peter Caton / WWF-UK*

## 4. Dangos Undod Byd-eang a Chefnogi Pobl Frodorol

- Parhau i hyrwyddo mentrau undod byd-eang, a chefnogi cymunedau sydd ar reng flaen yr argyfwng hinsawdd i warchod, cynnal ac adfer coedwigoedd trofannol.
- Cefnogi Pobl Frodorol a chymunedau lleol trwy gyllid hirdymor ac uniongyrchol, cydnabyddiaeth a thrwy hyrwyddo eu hawliau i warchod coedwigoedd a bioamrywiaeth drofannol. Mae hyn yn cynnwys mwy o gyllid ar gyfer eu gwaith, fel mapio coedwigoedd a phlannu coed, cydnabod a hyrwyddo eu hawliau, fel eiriol dros bennu ffiniau a diogelu tiroedd hynafol a'r arfer o Gydsyniad Rhydd, Blaenorol ar Sail Gwybodaeth (FPIC), a dysgu oddi wrth eu doethineb a'u gwybodaeth, sydd wedi eu harwain i fod yn warchodwyr gorau coedwigoedd y Ddaear.




*Prif Rivelino Verá Popygua o'r Comissão Guarani Yvyrupa yn COP26*



# 8. Astudiaethau Achos

## Aled Evans, Rest Farm

Mae Aled Evans yn rheolwr glaswelltir arloesol sy'n ffermio'n adfywiol mewn partneriaeth â'i frawd, Iwan, ar 500 erw o dir wedi'i leoli rhwng mynyddoedd y Preseli a Cheredigion, a chefn gwlad Sir Gaerfyrddin.

Wrth dyfu i fyny ar fferm, fe ddysgodd tad Aled ac Iwan iddynt werthfawrogi'r byd naturiol, ac fe ddywedodd wrthynt bob amser, petaent yn gofalu am y tir, y byddai'r tir yn gofalu amdanyn nhw.

Roedd Rest Farm wedi cael ei rhedeg yn flaenorol fel fferm laeth gonfensiynol, ond gwelodd Aled ac Iwan gyfle i wneud pethau'n wahanol i liniaru natur ansefydlog ffermio. Roeddent eisiau lleihau prynu cynhyrchion fel porthiant anifeiliaid wedi'i fewnforio a gwrtaith, a stocio'r swm cywir o anifeiliaid, yn hytrach na gormod. Roeddent eisiau datblygu system ffermio sefydlog a allai gael ei hailadrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn hytrach na llwyddo, yna methu.

*Fe wnaethant benderfynu seilio eu ffermio ar dri philer:*

1. **Etifeddiaeth – gofalu am yr amgylchedd a'r gymuned**
2. **Ffordd o fyw – peidio gweithio mwy na 50 awr yr wythnos ar gyfartaledd, cael bob yn ail penwythnos i ffwrdd, a gwyliau**
3. **Elw – gwneud bywoliaeth dda trwy dyfu bwyd o ansawdd.**


Fe wnaeth sychder 2018 iddynt feddwl yn fwy gofalus am reoli eu glaswelltir, systemau gwreiddiau a'u pridd. Fe wnaethant sylweddoli bod gan rai o'u glaswelltau wreiddiau tenau iawn, a bod hyn ddim yn dda ar gyfer gwrthsefyll sychder.



Maen nhw'n cynllunio ble mae eu 480 o fuchod Aberdeen Angus, Henffordd a Belgian Blue yn pori fis ymlaen llaw. Mae'r buchod yn cael eu symud bob dydd, ac mae'r glaswellt yn cael cyfnod hir o 30-100 diwrnod i gael seibiant.

***"Mae'n efelychu systemau pori mwy naturiol fel ych gwyllt yn y gwyllt, lle mae'r buchod yn symud ymlaen ar ôl iddynt orffen pori ar ardal... Rydym yn cael 50 sgwrs y dydd am wair... mae gennym obsesiwn"*, meddai Aled.**

*Lluniau © Aled Llywelyn / WWF Cymru*




Mae gwreiddiau ar draws y fferm bellach yn llawer dyfnach, ac yn amsugno mwy o faetholion. Maen nhw wedi rhoi cynnig ar blannu'n uniongyrchol, ac mae ganddynt gaeau gydag amrywiaeth o blanhigion – ysgellog, plantain, rhonwellt, meillionen coch a gwyn ac ambell i bysen-y-ceirw. Erbyn hyn, dydyn nhw ddim yn defnyddio unrhyw wrtaith nitrogen o gwbl. Felly, nid yw'r cynnydd diweddar mewn cost gwrtaith wedi effeithio ar y busnes, ac maen nhw wedi gwneud arbediad pump-digid trwy beidio â phrynu gwrtaith a phorthiant fel soia. Gan fod eu system ffermio bellach yn fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd, nid yw eu cynhyrchiant glaswellt cael ei effeithio'n sylweddol gan sychder 2022.

Mae Rest Farm bellach wedi derbyn statws 'Wedi'i hardystio'n fferm ailwladychol gan AGW' (A Greener World), ac wedi mynd drwy broses ardystio gynhwysfawr, sy'n edrych y tu hwnt i faint o garbon sydd yn cael ei storio yn y pridd, i greu bwyd iachach, systemau bioamrywiol, awyr a dwr glân, amodau gwaith da a llesiant anifeiliaid.

***"Mae mwy o amrywiaeth o blanhigion sy'n creu mwy o faetholion wedi rhoi llawer mwy o reolaeth i ni ar draws y system... sydd bellach yn llawer mwy cydnerth gyda mewnbynnau llai costus a mwy o ymwrthedd i sychder..."***

Yn hanfodol, mae'r ardystiad yn cynnwys cynllun parhaus ac archwiliad blynyddol, ac yn rhoi hyder iddyn nhw a'u cyflenwyr eu bod yn gwneud y peth iawn.

Ymhellach i ffwrdd, trwy'r gwaith maen nhw wedi ei wneud i wella eu porfa, fe ddaethon nhw i adnabod y cwmni HONEST Burgers, sydd wedi'i sefydlu yn Llundain, ac a oedd yn chwilio am rywun i fuddsoddi mewn datblygu cadwyn gyflenwi cig eidion fwy cynaliadwy. Maen nhw bellach yn cyflenwi'n uniongyrchol i HONEST burgers, ynghyd â dau gigydd moesegol yn Llundain. Maen nhw hefyd yn gwerthu i'r gymuned trwy gynllun bocs cig.

Yn ariannol, maen nhw'n uned cig eidion proffidiol sy'n cynnig cyflogaeth o ansawdd ac sy'n cadw teulu i fynd. Nid yw'r gost gynyddol o wrteithiau a chynhyrchion eraill wedi effeithio mewn gwirionedd ar y busnes. Nawr, oherwydd eu bod yn rheoli'r pori, dydyn nhw ddim yn defnyddio unrhyw wrtaith o gwbl a dim ond ychydig iawn o borthiant, sydd wedi arbed llawer o arian ar y fferm.

**Yn 2021, i gydnabod eu ffordd arloesol, broffidiol o ffermio sy'n cyd-fynd â natur, enillodd Aled ac Iwan y wobr Ffermwr Cig Eidion y Flwyddyn yng ngwobrau Farmer's Weekly.**

*Lluniau © Aled Llywelyn / WWF Cymru*

# Ferm Nantclyd

Mae Liz yn ffermio mewn partneriaeth â'i mab Oliver yn fferm Nantclyd yng Ngheredigion. Hi ydy'r cyntaf yn ei theulu i fod yn ffermwr, a dechreuodd fusnes fferm gymysg lwyddiannus iawn a chynaliadwy mwy na 30 mlynedd yn ôl, sy'n cyflenwi wyau, cyw iâr, ffrwythau a llysiau, grawn, oen a chig eidion.



Maen nhw'n gwerthu wyau yn lleol ac yn genedlaethol, bocsys cig a llysiau o giât y fferm, yn mynychu marchnadoedd ffermwyr ac yn cyflenwi siopau lleol ar hyd prif ffordd arfordirol Ceredigion ac, wrth wneud hynny, yn darparu swyddi i dri pherson.

Maen nhw'n rhedeg dau safle, Nantclyd, lle mae cywion ieir yn cael eu cadw a Ffrwdwenith Isaf, lle mae grawn a ffa yn cael eu tyfu ar gyfer porthiant anifeiliaid, ffrwythau a llysiau ar gyfer y farchnad leol, a lle mae buchod a defaid yn cael eu magu ar gyfer cig ac i wella ffrwythlondeb y pridd. Maen nhw'n ffermio'n gyfannol, gan weithio gyda natur, ac yn ceisio bod yn system gaeedig cymaint â phosibl, sy'n golygu eu bod yn lleihau swm y cynhyrchion allanol ac yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r hyn sydd ei angen arnynt eu hunain ar y fferm. Nid ydynt yn mewnforio porthiant anifeiliaid fel soia, sy'n gallu bod yn ysgogi datgoedwigo dramor ac yn lle hynny, maen nhw'n bwydo eu cywion ieir gyda grawn sydd wedi ei dyfu ar y fferm, ac yn bwydo defaid a buchod gyda glaswellt sydd yn cael ei dyfu yn eu caeau.

I gyflawni incwm wythnosol rheolaidd i'r teulu, cyrhaeddodd dau sied o ieir wŷ ym 1999. Maen nhw wedi datblygu'r busnes dofednod i gynnwys cyfanswm o 1000 o ieir, er erbyn hyn, maen nhw wedi lleihau i 600, ac maen nhw'n credu mai dyma'r nifer fwyaf o gywion ieir y gellir eu cadw ar eu heiddo heb i'r cynnydd mewn nitrogen gormodol effeithio ar yr ardal leol. Mae'r gwrtaith ieir yn cael ei gompostio gyda chynnyrch organig eraill.

**'Fe wnaethom fabwysiadu arferion biodynamig yn sgil ffermio'n holistaidd – roedd yn system o ffermio nad oedd yn dibynnu ar archebu cynhyrchion. Fe wnaethom ddechrau heb ddim, ac roedd yn rhaid i ni ofalu ar ôl y tir hyd orau ein gallu, ac fe wnaethom ddarganfod ein bod ni'n gallu gwneud hyn drwy ffermio'n fiodynamig.'**

*Lluniau © Aled Llywelyn / WWF Cymru*



Yn Ffrwdwenith Isaf, mae ganddynt haid o tuag 20 o ddefaid bridio Dorset a haid fechan o fuchod cig eidion Henffordd, sy'n cael eu pesgi 100% ar borfa. Mae'r defaid yn helpu i reoli'r caeau gwenith, ac mae'r porwyr yn gyffredinol yn helpu i adeiladu ffrwythlondeb. Hefyd mae dwy erw o gae gyda mefus, tatws, gwreiddlysiau pwmpenni a chnydau bresych, yn ogystal â chnydau âr, sy'n cynnwys gwenith, pys, ac ŷd noeth ar gyfer bwydo dofednod. Mae'r fferm yn bennaf yn hunangynhaliol o ran bwydo adar, ac maen nhw hefyd wedi tyfu acer fechan o Hen Gymro, neu wenith 'Old Welshman'.



Y prif beth mae'r fferm yn ei werthu ydy wyau i siopau lleol ond hefyd, i Organic Farm Foods, Black Mountain Foods ac Abel & Cole. Maen nhw'n gwerthu cig cyw iâr a chig oen a chig eidion sydd wedi'u pesgi 100% ar borfa mewn bocsys cig lleol hefyd. Mae bocsys yn cael eu gwerthu o giat y fferm, ac yn cael eu cyflenwi i siopau lleol.

**'Mae gwerthu'n uniongyrchol mewn marchnadoedd yn rhoi'r cyfle i siarad â phobl am y ffyrdd rydym yn ffermio. Mae'n bwysig i bobl ddeall am y bwyd rydym yn ei dyfu.**

**'Dim ond gwarcheidwad y ddaear ydw i. I mi, mae ynghylch gadael rhywbeth ar ôl sy'n well na beth wnaethom ei ddarganfod – rhywbeth a fydd yn bwydo cenedlaethau'r dyfodol... mae ynghylch y plant a'r dyfodol.'**

*Lluniau © Aled Llywelyn / WWF Cymru*


Size of
Wales
Maint
Cymru
WWF